Hyfforddiant wedi'i deilwra - i chi?

☑ Ydi'ch cwmni'n gweithredu yng Nghonwy wledig?
☑ Oes gennych chi neu'ch staff anghenion penodol o ran hyfforddiant?

Mae yna arian ar gael drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i gefnogi hyfforddiant i unigolion a busnesau yng nghefn gwlad Conwy.

Gellir defnyddio'r cyllid hwn ar gyfer cyrsiau busnes, cyfrifydda a chyfrifiadura - yn ogystal â chyrsiau mwy penodol fel amaethyddiaeth ac ynni adnewyddol - a gynhelir gan y Coleg.

Gallwn hefyd gynllunio cyrsiau i ateb union anghenion eich busnes a chynnig cyfleoedd mewn meysydd sy'n allweddol i chi. Os credwch y byddech chi neu'ch staff yn elwa o dderbyn hyfforddiant, gallwn lunio rhaglen ar eich cyfer a'i chynnal yn rhywle fydd yn gyfleus i chi.

Mae'r hyfforddiant hwn yn wahanol i'r cyrsiau arferol a hysbysebir oherwydd gellir ei addasu i fodloni'ch anghenion penodol chi, beth bynnag fo'u natur. Gallent fod yn unrhyw beth o wneud hetiau, hyfforddiant 'barista' i gynhyrchu sglodion coed!

Diddordeb? Os felly, i gael rhagor o wybodaeth neu i drafod sut gallech chi a'ch busnes elwa'n uniongyrchol ar hyn, cysylltwch ag:

Ffion Alun, Coleg Llandrillo, Glasdir, Heol yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF
Ffôn: 01492 546 666 est. 723
E- bost: f.alun@gllm.ac.uk
@TrainingConwy

Gall hyfforddiant wneud byd o wahaniaeth i'ch busnes – o ran ehangu'ch sylfaen sgiliau, gwella cymhelliant eich gweithwyr a'u cadw, a chynyddu'ch trosiant.

Grŵp Llandrillo Menai
Conwy County Borough Council
Partneriaeth Wledig Conwy Rural Partnership
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Ariennir y bartneriaeth hon drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a ariennir yn ei dro gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.